CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN PAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS 7.30 y.h. NOS LUN 2fed MAWRTH 2026.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Glena Humphrey, bawb i'r cyfarfod a chroesawodd Tudur Roberts a oedd wedi dangos diddordeb yn y swydd wag i fod yn Gynghorydd Cymunedol.

2. PRESENNOL

Cynghorwyr Glena Humphrey, Gwawr Thomas, Irwedd Griffiths, Hefin Williams, Goronwy R. Williams, D Gwyn Jones, John Evans, y Clerc Mel Jones a Mr Tudur Roberts.

3. YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Gwenda Davies, Gethin Owen a'r Cynghorydd Sir Ifor G. Lloyd.

4. DATGAN BUDDIANT

Atgoffwyd yr aelodau bod yn rhaid iddynt ddatgan bodolaeth a natur unrhyw fuddiant personol gan ddefnyddio'r ffurflen briodol.
Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi datgan ei fod yn aelod o'r pwyllgor cynllunio ac felly ni all gymryd rhan mewn penderfyniadau ar geisiadau cynllunio sy'n cael eu trafod, ond gall ateb cwestiynau ynghylch rheoliadau a pholisïau cynllunio.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

5. COFNODION

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2026. Cymeradwywyd a llofnodwyd y cofnodion.
(Cynigiwyd gan y Cynghorydd Goronwy Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Gwyn Jones.)

6. MATERION YN CODI

Roedd y broses o lenwi'r swydd wag i gymryd lle Bryn Jones wedi symud ymlaen ac roedd Mr Tudur Roberts yn bresennol yn y cyfarfod i gael blas ar y broses.

7. CYLLID

Cafodd Datganiadau Ariannol misol eu cyflwyno ar gyfer y cyfnod yn dod i ben 20 Chwefror 2026.

Cyfrif Cymunedol = £5,695.64 (Balans agoriadol)

Arian a dderbyniwyd = Dim

Arian a dalwyd

- £47.00 (Trwydded Diogelu Data ICO)
- £400.00 (Cyflog y Clerc)
- £213.17 (Cyflog y Clerc)
- £150.00 (Grant – Marie Curie)
- £95.98 (Anfoneb BT WiFi)
- £205.60 (HMRC – Cyflog y Clerc)

Cyfanswm £1,111.75

Cyfrif Cymunedol = £4,583.89 (Balans cloi)

Cyfrif Busnes = £4,119.53 (Balans agoriadol)
Arian a dalwyd = Dim
Arian a dderbyniwyd = Dim

Cyfrif Busnes = £4,119.53 (Balans cloi)

Cyfanswm = £8,703.42

Nododd yr aelodau'r sefyllfa ariannol a'r balansau banc uchod. Cytunodd pawb fod y cyfrifon yn gywir.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol, mae bellach yn angenrheidiol cael cytundeb y Cyngor cyn talu unrhyw anfonebau ar-lein.

Cytunwyd i dalu anfoneb BT o £95.98. Nododd y Clerc fod BT wedi rhoi rhybudd y byddai'r taliadau'n cynyddu £4 y mis ynghyd â TAW.

Dywedodd y Clerc fod HSBC wedi lleihau cyfradd llog y Cyfrif Busnes i 1.21%. Mae'r broses diogelu HSBC wedi'i chwblhau ac mae cadarnhad yn aros.

8. GOHEBIAETH

Derbyniwyd

E-byst rheolaidd gan One Voice Wales, Public Service Executive ac eraill gyda'r rhai perthnasol wedi ei hanfon ymlaen at y cynghorwyr.

1. E-bost gan Deborah Checkland o **Purple Plaques Wales** ynghylch gosod plac i gofféu Mary Lloyd Wynne o Stad Coed Coch. Trafodwyd y mater. Gan nad yw'r Cyngor Cymuned yn rheoli'r eglwys na'r ysgol, penderfynwyd rhoi manylion cyswllt y Ficer a'r Pennaeth iddynt. Awgrymwyd hefyd y gallai giât mynediad Stad Coed Coch fod yn lleoliad addas.
2. Llythyr gan Elan City ynghylch dyfeisiau dangos cyflymder cerbydau. Roedd y gost yn £4,499 heb TAW. Penderfynwyd peidio â symud ymlaen.
3. E-bost gan y Gymdeithas Chwaraeon ynghylch ailblannu'r goeden "monkey tree". Cytunwyd y gellid ei symud ger ffens y Clwb Golff.
4. E-bost gan Deb Critchley (Tenovus) yn gofyn am ddod i siarad. Gan fod cynrychiolydd wedi siarad ym mis Ebrill 2025, penderfynwyd nad oedd angen trefnu sgwrs arall ar hyn o bryd.

Anfonwyd

- Ymatebion i Adran Gynllunio Cyngor Sir Conwy
- Llythyrau ac e-byst i'w hanfon ymlaen at gynghorwyr

9. GRANTIAU

Ceisiadau i'r Cyngor

- Talwyd grant £400 i Glwb Ieuenctid Betws-yn-Rhos.
- Derbyniwyd llythyr diolch gan Marie Curie am £150.
- Cais gan Richard Hughes ar gyfer Eisteddfod Calan Mai (25 Ebrill 2026). Cytunwyd grant o £300.

Ceisiadau gan y Cyngor

Mae CVSC yn helpu i ganfod grantiau addas ar gyfer prosiectau cymunedol gan gynnwys uwchraddio maes chwarae Betws-yn-Rhos.

10. CYNLLUNIO

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/53230 Ymgeisydd: Mr a Mrs MacBeth

Cynnig: Addasu ystafell fyw oriel ddwbl ar y llawr cyntaf i greu dwy ystafell wely i westeion gyda chyfleusterau en-suite, addasu'r en-suite presennol i greu ystafell wely ychwanegol, gosod en-suite, a gosod dau ddrws balconi Juliet (Caniatâd Adeilad Rhestredig).

Lleoliad: Ffarm Country House, Ffordd Cill Llidiart, Betws yn Rhos, LL22 8AR

Archwiliwyd dogfennau'r cais cynllunio. Yn dilyn trafodaeth nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio ac roedd y Cynghorwyr yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad terfynol. Y Clerc i ddiweddaru'r Adran Gynllunio.

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/53226 Ymgeisydd: Mr a Mrs Ian Jackson

Cynnig: Codi cyntedd un llawr ar yr ochr/blaen, estyniad dau lawr ar gyfer ystafell fwyta/ystafell ymolchi, ac estyniad dau lawr ar gyfer cegin/ystafell wely gyda gwaith mewnol cysylltiedig.

Lleoliad: Nant Ganol, Ffordd Nentydd, Rhyd y Foel, Betws yn Rhos, LL22 8EF

Archwiliwyd dogfennau'r cais cynllunio. Yn dilyn trafodaeth nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio ac roedd y Cynghorwyr yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad terfynol. Y Clerc i ddiweddaru'r Adran Gynllunio.

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/53170 Ymgeisydd: Mr Dewi Cahill

Cynnig: Codi adeilad amaethyddol (Cymeradwyaeth Flaenorol ar gyfer Adeilad Amaethyddol).

Lleoliad: Tir ym Mhenrefail, Betws yn Rhos, Abergele, Conwy

Anfonwyd y cais at y Cynghorwyr am sylwadau gan fod yn rhaid i'r Adran Gynllunio wneud penderfyniad cyn 1af Mawrth 2026. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cais cynllunio. Hysbysodd y Clerc yr Adran Gynllunio yn unol â hynny.

Cyfeirnod: 0/53110 Ymgeisydd: Ms Judith Evans

Cynnig: Cadw ac ymestyn sied amaethyddol.

Lleoliad: Y Nentydd, Ffordd Nentydd, Rhyd y Foel, Abergele, LL22 8EF

Cymeradwywyd y cais cynllunio gydag amodau.

Cyfeirnod: 0/53039 Ymgeisydd: Ms R Jones

Cynnig: Trosi adeiladau allanol fferm segur yn lety preswyl gan gynnwys estyniadau i'r adeilad.

Lleoliad: Nant Ucha, Ffordd Nentydd, Rhyd y Foel, Betws yn Rhos, LL22 8EF

Roedd y cais cychwynnol wedi ei archwilio ac nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad. Mae cynlluniau diwygiedig a gwybodaeth wedi ei diweddaru bellach wedi ei cyflwyno i'r Adran Gynllunio.

Archwiliwyd y dogfennau cynllunio diwygiedig. Yn dilyn trafodaeth nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio ac roedd y Cynghorwyr yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad terfynol. Y Clerc i ddiweddaru'r Adran Gynllunio.

Cyfeirnod: 0/53008 Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt

Cynnig: Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer sied amaethyddol.

Lleoliad: Aelwyd Uchaf, Ffordd Cill Llidiart, Betws yn Rhos, LL22 8AG

Cymeradwywyd y cais cynllunio gydag amodau.

Cyfeirnod: 0/52910 Ymgeisydd: Mr Sean McBride

Cynnig: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45158 (Datblygu tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen), Hen Golwyn, ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 2)).

Lleoliad: Tir ar Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8UP

Mater yn cael ei ystyried gan yr Adran Gynllunio.

Cyfeirnod: 0/52909 Ymgeisydd: Mr Sean McBride

Cynnig: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45161 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl mewn perthynas â chaniatâd cynllunio amlinellol 0/42351 – Datblygu tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen), Hen Golwyn, ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 1)).

Lleoliad: Tir ar Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8UP

Mater yn cael ei ystyried gan yr Adran Gynllunio.

Cyfeirnod: 0/52584 Ymgeisydd: Mr Max Jones

Cynnig: Newid defnydd tir o gae amaethyddol i ardal ymarfer cŵn (defnydd unigryw) ynghyd â gwaith cysylltiedig ar gyfer parcio a thirlunio.

Lleoliad: Tir wrth ymyl Bryn Rodyn, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8UU

Cymeradwywyd y cais cynllunio gydag amodau.

APÊL GWRTHOD CYNLLUNIO

Cyfeiriad y Safle: Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8UU

Disgrifiad o'r Datblygiad: Newid defnydd tir ar gyfer storio carafannau gyda thirlunio cysylltiedig.

Cyfeirnod y Cais: 0/52387

Enw'r Apelydd: BR Storage

Adolygodd y Cyngor y sylwadau a wnaed ganddynt ar y cais cynllunio gwreiddiol ac ni welwyd unrhyw reswm i newid eu safbwynt ar yr apêl hon, sef:

Roedd consensws bod y safle arfaethedig allan o'r golwg, fodd bynnag roedd pryderon ynghylch y bylchau rhwng y llefydd unigol yn yr ardal storio arfaethedig ac unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol a bwriad hirdymor ar gyfer y safle. Mae'n ymddangos bod ardal storio o'r fath eisoes ar y safle. Bydd hefyd cynnydd mewn traffig yn defnyddio'r ffordd i'r safle.

Y Clerc i ddiweddaru'r Adran Gynllunio.

11. ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Anfonodd y Clerc ymholiad i Archwilio Cymru ynghylch diffyg gwybodaeth honedig – dim ymateb eto.

Bydd **JDH Business Services** yn cynnal yr archwiliad mewnol rhwng Ebrill a Mehefin 2026.

Cytunwyd cysylltu ag **One Voice Wales** ynghylch hyfforddiant Modiwl 1 a 2 i gynghorwyr ar y cyd gyda Cyngor Llanfair T.H.

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY

Nid oedd y Cynghorydd Ifor Lloyd yn bresennol.

Bydd Cynghorydd Lloyd yn llunio rhestr o ffyrdd yn yr ardal sydd angen eu hadnewyddu a'i chyflwyno i'r Cyngor Sir. Bydd copi yn cael ei yrru i'r Clerc

13. CYNHAL A CHADW ADNODDAU

a. Maes Chwarae Betws-yn-Rhos / Llanelian

Derbyniwyd dyfynbris KOMPAN £30,524.61.
Gofynnwyd am ddyfynbris diwygiedig o tua £15,000 er mwyn gwneud cais grant. Yn disgwyl am y manylion.

Roedd y Clerc wedi diweddaru Mr David Dudley (Arolygydd Meysydd Chwarae) bod y Cyngor Cymuned o'r farn bod y risg o brydlesu Maes Chwarae Betws yn Rhos yn rhy fawr ac felly na fyddai'n cael ei ystyried.

Roedd Mr Dudley wedi rhannu Adroddiadau Archwilio ar gyfer meysydd chwarae Llanelian a Betws yn Rhos gyda'r Clerc, ac roedd y Clerc wedi eu hanfon ymlaen at y Cynghorwyr. Mae rhywfaint o offer sydd angen ei ddisodli neu ei atgyweirio, gan gynnwys y lloriau fel y nodwyd yn yr adroddiadau.

Mae Mr Dudley wedi cytuno i gyfarfod â'r Clerc yn gynnar ym mis Mawrth ym Maes Chwarae Betws yn Rhos i drafod y gwaith atgyweirio ac ati.

b. Diffibrilwyr

Wedi'u gwirio 2/1/26 – popeth yn iawn.

Yn disgwyl dyddiadau gan Tomos Hughes i'r hyfforddiant yn Betws yn Rhos a Llanelian.

c. Yr Hwb

Mae gwirfoddolwyr yn dal eu hangen ar gyfer sesiynau bore Mawrth. Mae Aloma Wheway wedi darparu cais am grant gan y Cyngor Sir.

d. Gwelyau Blodau / Meinciau

Hilda Gibbs yn monitro.

e. Cyfleuster Toiledau Llanelian

O ran trosglwyddo'r toiledau yn Llanelian, Ms Nia Wyn Roberts yw'r Cyfreithiwr newydd sy'n ymgymryd â'r gwaith. Yn anffodus, hyd yma nid yw'r Clerc wedi derbyn unrhyw ymatebion i nifer o e-byst a galwadau ffôn i swyddfa Howell Jones.

Mae'r Clerc wedi cysylltu â Kylie Wellings o Gyngor Sir Conwy, ac mae grŵp arall wedi cael yr un broblem gyda Howell Jones ac wedi symud i Gyfreithwyr Lanyon Bowdler, Conwy, sydd bellach yn ymgymryd â'r gwaith o brydlesu cyfleuster toiled arall. Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Lanyon Bowdler i gael dyfynbris ar gyfer y gwaith ac wedyn eu penodi, ac ar ôl hynny hysbysu Howell Jones.

Mae'n hollbwysig bod hyn yn cael ei ddatrys cyn gynted â phosibl gan fod disgwyl i'r toiledau agor ym mis Ebrill 2026.

Mae'r holl fanylion angenrheidiol wedi'u rhannu gyda Zurich Insurance ac mae'r dyfynbris yn £613.90 (sy'n cynnwys yr yswiriant blynyddol arferol). Pan fydd y brydles wedi symud ymlaen, bydd y Clerc yn ceisio dyfynbris arall i'w gymharu.

f. Materion Cyffredinol

Tir yn Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Mae'r cae yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio offer peiriannau. Bydd y Cyngor Sir yn rhoi diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau.

Y Clerc i gysylltu â Mel Ellham ym mis Ebrill i ddarparu dyfynbris yn y Gwanwyn ar gyfer ailbeintio'r ddau giosg yn Betws yn Rhos a Dolwen.

Yn dilyn i'r Cynghorydd Gwyn Jones godi pryder ar ôl gwrthdrawiad traffig ffordd rhwng dau fan Bwrdd Dŵr ar Ffordd Galch, Llanelian, mae'r Clerc wedi hysbysu ERF yng Nghyngor Sir Conwy bod angen i'r Cyngor Sir asesu'r arwyddion yn y lleoliad ac y dylid ystyried arwydd **'ARAF'** cyn y tro lle mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd. Nid oes diweddariad gan ERF hyd yma.

Roedd y Cynghorydd Irwedd Griffiths wedi codi mater ynghylch preswylwyr 21, Glan y Fedwen, Betws yn Rhos, a arweiniodd at ymyrraeth gan yr Heddlu ac yn y pen draw i'r teulu adael yr eiddo, sydd bellach yn wag. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Cartrefi Conwy yn gofyn i drigolion lleol y pentref gael eu hystyried fel tenantiaid yn y dyfodol.

O ran cyflwr gwael Minafon House, Betws yn Rhos, lle roedd darn mawr o'r rendro wedi disgyn ar y ffordd, mae'r Clerc wedi ysgrifennu at ERF ac at yr Adran Orfodi.

14. CYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Cyflwynwyd y cais praesept ar gyfer 2026/2027 erbyn 16/1/2026.

Y gwariant disgwyliedig ar gyfer 2026/2027 yw £24,558.25.

Y penderfyniad oedd cyflwyno cais praesept am £22,000 gyda £2,558.25 yn cael ei dalu o'r cronfeydd wrth gefn, gan adael £5,475.52 yn y cronfeydd wrth gefn, sydd ychydig yn is na'r 25% a argymhellir o'r praesept blynyddol. Fodd bynnag, teimlwyd bod hyn yn ddigonol ac nad oedd yn gyfiawn rhoi baich ychwanegol ar drethdalwyr lleol er mwyn cynyddu'r gronfa wrth gefn.

Disgwylir penderfyniad gan Gyngor Sir Conwy ynghylch a yw'r praesept wedi'i gymeradwyo.

15. FFERMYDD GWYNT AR Y MÔR AC AR Y TIR

(Awel y Môr / Gwynt y Môr / Mona)

Mae'r mater yn parhau ar yr agenda. Mae datblygiad Awel y Môr yn mynd rhagddo.

Dim diweddariad ffurfiol ar y cynnig ar gyfer tyrbinau gwynt a pharc solar ar Fynydd Llanelian.

16. Y GADLAS

Dim awgrymiadau ar gyfer erthygl.

17. UNRHYW FATER ARALL

Cytunodd Mr Tudur Roberts i fod yn Gynghorydd Cymuned a llofnododd y ffurflen briodol.

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, caewyd y cyfarfod am **8.45 y.h.**

CADEIRYDD: ……Glena Humphrey

CLERC: ……..Mel Jones

DYDDIAD: 13 Ebrill 2026